

**Sgîl-ffaith i'ch meddyginiaeth?
Adroddwch hyn i'r Cynllun
Cerdyn Melyn gan
ddefnyddio'r
ffurflen hon**

Mae eich adroddiad yn bwysig er mwyn helpu'r MHRA i fonitro defnydd diogel meddyginiaethau a diogelu iechyd y cyhoedd.

Pam adrodd am sgîl-ffeithiau a amheuir?

Gwneud meddyginiaethau'n fwy diogel i bawb

Mae eich adroddiad yn bwysig a gall wneud gwahaniaeth. Gall pob meddyginiaeth achosi sgîl-ffeithiau nas dymunir, a elwir weithiau'n adweithiau anffafriol i gyffuriau, mewn rhai pobl. Mae llawer o sgîl-ffeithiau'n ysgafn, ond gall rhai ohonynt fod yn ddifrifol a hyd yn oed beryglu bywyd. Weithiau gall sgîl-ffeithiau ymddangos ar ôl i berson stopio cymryd meddyginiaeth.

Does neb yn gwybod am rai o'r sgîl-ffeithiau nes y bydd llawer o bobl wedi bod yn cymryd y feddyginiaeth am amser hir. Dyna pam mae'n bwysig i bobl adrodd am sgîl-ffeithiau a amheuir.

Mae'n arbennig o ddefnyddiol i adrodd am sgîl-ffeithiau a amheuir:

- ◆ sydd ddim wedi'u nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion a geir ym mlwch y feddyginiaeth
- ◆ sy'n achosi problemau digon drwg i effeithio ar eich gweithgareddau bob dydd
- ◆ sy'n digwydd pan fyddwch yn cymryd mwy nag un feddyginiaeth
- ◆ a allai gael eu hachosi gan ryngweithio gyda meddyginiaethau eraill neu fwyd.

Weithiau mae'n anodd dweud a yw symptom yn sgîl-ffaith cymryd eich meddyginiaeth neu'n rhywbeth arall. Os nad ydych yn siŵr, llenwch adroddiad Cerdyn Melyn a'i anfon at yr MHRA. Mae ffurflen i'w chael yng nghefn y llyfryn hwn, neu gallwch adrodd ar-lein ar www.mhra.gov.uk/yellowcard, neu drwy ddefnyddio ap am ddim y Cerdyn Melyn.

I gael cyngor am sgîl-ffeithiau siaradwch â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol megis meddyg, fferylllydd neu nyrs. Ni all yr MHRA roi cyngor meddygol.

Beth i adrodd

Gallwch adrodd am sgîl-ffeithiau a amheuir i unrhyw feddyginiaeth, brechlyn, meddyginiaethau llysieuol a meddyginiaethau homeopathig, boed eu bod wedi'u rhagnodi neu eu prynu, neu hyd yn oed wedi'u cael dros y rhyngwrwyd.

Gallwch adrodd am sgîl-ffeithiau a amheuir sydd wedi digwydd:

- ◆ i chi'n bersonol
- ◆ i'ch plentyn
- ◆ i rywun yr ydych chi'n gyfrifol am ofalu amdanynt, neu rywun sy'n gofyn i chi adrodd ar eu rhan.


Dim ond amheuaeth sydd ei angen er mwyn adrodd.

Sut y defnyddir adroddiadau'r Cerdyn Melyn?

Rheoleiddiwr meddyginiaethau y DU, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (yr MHRA), sy'n cynnal y Cynllun Cerdyn Melyn. Mae'n casglu adroddiadau am sgîl-ffeithiau gan bobl sy'n cymryd meddyginiaethau, yn ogystal â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol megis meddygon, fferyllwyr a nyrsys a hefyd yn adrodd am sgîl-ffeithiau a amheuir a brofir gan gleifion.

Defnyddir yr adroddiadau hyn i nodi sgîl-ffeithiau a gwybodaeth ddiogelwch arall am feddyginiaethau nad oedd efallai'n hysbys cyn hynny. Os canfyddir sgîl-ffaith newydd, bydd yr MHRA yn edrych ar sut gall y feddyginiaeth gael ei defnyddio a'r rhybuddion a roddir i bobl sy'n ei chymryd.

Adrodd am sgil effeithiau a amheuir



Sut i adrodd am sgîl effaith a amheuir

Mae pedair prif ffordd y gallwch wneud adroddiad:

- ◆ ar-lein yn www.mhra.gov.uk/yellowcard
- ◆ llenwi'r ffurflen amgaeedig, a'i dychwelyd yn yr amlen a ddarperir (nid oes angen stamp)
- ◆ ffonio llinell adrodd y Cerdyn Melyn am ddim ar **0800 731 6789 (Llun – Gwener 10yb – 2yh)**
- ◆ defnyddio'r **ap** am ddim – chwiliwch am 'Yellow Card'

Llenwi'r ffurflen Cerdyn Melyn

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r ffurflen amgaeedig, llenwch gymaint ohoni ag y gallwch, gan gynnwys yr holl linellau sydd wedi'u nodi gyda *.

Fe fydd hi'n ddefnyddiol bod eich meddyginiaethau wrth law pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen hon.

Mae pum adran i'r ffurflen:

- 1. Ynglŷn â'r sgîl-ffaith a amheuir.** Rhewch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl. Gallwch hefyd ddweud wrthym a oedd y niwed oherwydd camgymeriad yn sut y gwnaethoch gymryd y feddyginiaeth neu sut y cafodd ei rhoi i chi - gelwir hyn yn gamgymeriad meddyginiaeth. Er enghraifft, cyffur, dos neu lwybr anghywir; a pham (megis, gormod o feddyginiaeth wedi'i chymryd oherwydd cyfarwyddiadau anghywir ar label y fferyllfa, neu cymerais ormod ar ddamwain, neu rhoddwyd y feddyginiaeth anghywir i mi ac ati). Cedwir pob adroddiad yn gyfrinachol.
- 2. Ynglŷn â'r person a gafodd y sgîl-ffaith a amheuir.** Rhewch gymaint o wybodaeth ag y gallwch fel oedran, rhyw, taldra a pwysau. Mae hyn yn ein helpu i wahaniaethu rhwng cleifion ar ein cronfa data. Mae hefyd yn ein helpu i ddeall a yw rhai cleifion yn fwy tebygol o gael sgîl-ffaith.

3. Ynglŷn â'r feddyginiaeth (meddyginiaethau) a allai fod wedi achosi'r sgîl-effaith. Os yw hwn gennych, rhowch y rhif swmp a arddangosir fel BN/Lot ar flwch y feddyginiaeth. Weithiau gall sgîl-effeithiau ddigwydd hefyd oherwydd rhyngweithiadau, felly gofynnwn i chi ddweud wrthym am yr holl feddyginiaethau neu feddyginiaethau llysiuol sy'n cael eu cymryd.

4. Ynglŷn â'ch meddyg (dewisol). Os byddwch yn rhoi caniatâd i ni gysylltu â'ch meddyg, rhowch y manylion cyswllt.

5. Amdanoch chi – y person sy'n gwneud yr adroddiad. Rydym angen enw a manylion cyswllt. Mae hyn hefyd yn ein helpu i gysylltu â chi os byddwn angen rhagor o wybodaeth.

Arwyddwch a dyddiwch y ffurflen cyn ei phostio yn yr amlen amgaeedig.

Os bydd angen mwy o le arnoch i ysgrifennu defnyddiwch ddalen arall o bapur a'i rhoi yn yr amlen gyda'ch ffurflen.

Os ydych angen cymorth i adrodd:

- ◆ ffoniwch llinell adrodd y Cerdyn Melyn am ddim ar **0800 731 6789 (Llun – Gwener 10yb – 2yh)**. Cofiwch na all yr MHRA roi cyngor meddygol unigol i chi.
- ◆ neu gofynnwch weithiwr gofal iechyd proffesiynol, megis meddyg, nyrs neu fferylllydd am gymorth.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr MHRA yn anfon cydnabyddiaeth atoch pan dderbynnir eich adroddiad Cerdyn Melyn. Os ydych chi wedi rhoi caniatâd ar y ffurflen, byddwn yn anfon copi at eich meddyg.

Diogelu eich gwybodaeth bersonol

Ar y ffurflen rydym yn gofyn am eich enw a'ch manylion cyswllt. Gwneir hyn er mwyn gallu cysylltu â chi os byddwn angen rhagor o wybodaeth gennych.

Cedwir eich manylion personol yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Ni chânt byth eu trosglwyddo i unrhyw un arall y tu allan i'r MHRA heb eich caniatâd.

Os ydych am wneud adroddiad ond ddim am roi eich enw, gallwch ofyn i rywun arall lenwi'r ffurflen ar eich rhan, a rhoi eu manylion hwy.

Bydd yr MHRA yn cyhoeddi data wedi'i ddiennwi yn rheolaidd ynglŷn â gwybodaeth a roddir mewn adroddiadau Cerdyn Melyn, ond ni fydd hyn byth yn cynnwys enwau neu fanylion personol eraill y bobl a wnaeth yr adroddiadau. Gellir gweld rhagor o fanylion ynglŷn â sut yr ydym yn trin y wybodaeth yn eich adroddiad yn ein polisi preifatrwydd ar wefan y Cerdyn Melyn yn: <https://yellowcard.mhra.gov.uk/privacy-policy/> neu chwiliwch am 'privacy'.

Weithiau efallai y bydd yr MHRA eisiau defnyddio eich gwybodaeth Cerdyn Melyn i annog pobl eraill i adrodd, er mwyn optio i mewn ticiwch y blwch ar ddiwedd y ffurflen. Er enghraifft, er mwyn datblygu astudiaethau achos mwy manwl i ddangos pwysigrwydd gwneud adroddiad Cerdyn Melyn.

Ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu heb gyfathrebu pellach â chi.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych yn poeni am symptom y credwch allai fod yn sgîl-effaith:

- 1. Darllenwch y daflen gwybodaeth i gleifion** a ddaw gyda'r feddyginiaeth bob amser. Ar hon rhestrir yr holl sgîl-efeithiau sy'n hysbys a bydd yn eich cynghori ynglŷn â beth i'w wneud.
- 2. Siaradwch â'ch meddyg, fferyllydd neu nyrs.**
- 3. Gallwch hefyd gael gwybodaeth gan:**
- 4. NHS 111** yn Lloegr a'r Alban dros y ffôn ar **111** (ffôn testun 181001 111)
 - ◆ **Galw IECHYD Cymru** dros y ffôn ar **0845 46 47*** (ffôn testun 0845 606 46 47)
 - ◆ gwefan y Cerdyn Melyn yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard**

Ni all yr MHRA ddarparu cyngor meddygol mewn achosion unigol.

Cysylltwch â'ch meddyg bob amser os ydych yn poeni am unrhyw symptomau.

*Codir tâl ar alwadau sy'n defnyddio llinellau tir a ffonau symudol. Efallai y bydd darparwyr gwasanaeth ffôn yn codi gwahanol gyfraddau a byddant yn darparu gwybodaeth ar gais.

Beth yw'r MHRA?

Corff llywodraeth y DU yw'r MHRA. Ei brif nod yw diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'n gwneud hyn drwy sicrhau bod meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn gweithio'n iawn ac yn dderbyniol o ran diogelwch. Pan ddaw unrhyw broblemau posibl i'r amlwg, bydd yr MHRA yn gweithredu ar unwaith i ddiogelu'r cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr MHRA:

- ◆ ewch i www.gov.uk/mhra neu ffoniwch 0203 080 6000

Gallwch hefyd adrodd ar-lein ar wefan Cerdyn Melyn ynglŷn ag unrhyw broblemau diogelwch a amheuir neu ddigwyddiadau'n ymwneud â'r canlynol:

- ◆ digwyddiad anffafriol yn ymwneud â dyfais feddygol
- ◆ meddyginiaethau diffygiol (y rheini sydd ddim o ansawdd derbyniol)
- ◆ meddyginiaeth neu ddyfais feddygol ffug
- ◆ pryderon yn ymwneud â diogelwch ar gyfer e-sigaréts a'u hadlenwadau (e-hylifau)

Helpwch ni i godi ymwybyddiaeth am adrodd wrth y Cynllun Cerdyn Melyn.

Helpwch ni i godi ymwybyddiaeth am adrodd wrth y Cynllun Cerdyn Melyn. Gweler ein hanimeiddiad (<https://www.youtube.com/watch?v=LSebXqa-gVY>), ffeithluniau a fideos am y Cynllun yn adran lawrlwythiadau ein gwefan adrodd. Mae croeso i chi eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn ein helpu i hyrwyddo'r Cynllun Cerdyn Melyn.

Nodwch mae'r Cerdyn Melyn yn yr iaith Saesneg. Cwblwchewch y Cerdyn Melyn yn Saesneg os gwelwch chi fod yn dda.



Helpu i wneud meddyginiaethau yn ddiogelach

1. About the suspected side effect

* What were the symptoms of the suspected side effect, and how did it happen?

If there isn't enough space here, attach an extra sheet of paper.

How bad was the suspected side effect? Tick the box that best describes how bad the symptoms were.

- * Mild Unpleasant, but did not affect everyday activities
- Bad enough to affect everyday activities Bad enough to see doctor
- Bad enough to be admitted to hospital Caused very serious illness
- Caused death Other _____

When did the side effect start? _____

How is the person feeling now? Tick the box that best describes whether the person still has symptoms of the suspected side effect.

- * Better (no more symptoms) Getting better Still has symptoms More seriously ill Died Other

Can you give any more details? For example, did the person take or receive any other treatment for the symptoms?
Did they stop taking the medicine as a result of the side effect?

Was there a mistake in how the medicine was given or taken?

2. About the person who had the suspected side effect

Who had the suspected side effect?

- * You Your child Someone else

Is the patient pregnant?

- Yes No Unknown N/A

Information about the person Supply as much information as you can, even if you prefer not give a name.

First name or initials _____ Family name _____ Male Female

- * Age _____ weight _____ kg stones/pounds Height _____ metres feet/inches

Any other relevant information?

For example, does the patient have any medical conditions or allergies? If the patient is pregnant, please provide the estimated due date and as much information as you can about this and any previous pregnancies.

3. About the medicine(s) which might have caused the side effect

* **Name of the medicine** _____ prescription bought in pharmacy bought elsewhere

Dosage (for example, one 250mg tablet, twice a day) _____

bought on the internet

What was it taken for? _____ Batch number (BN) _____

Start date _____ End date _____ Did you stop because of side effects? Yes No

Give details of other medicine(s) taken at the same time (which might have caused an interaction). Attach an extra sheet of paper, if needed.

Name of the medicine _____ prescription bought in pharmacy bought elsewhere

Dosage (for example, one 250mg tablet, twice a day) _____ bought on the internet

What was it taken for? _____

Is this medicine thought to have also caused the side effect? _____ Yes No Possibly

Start date _____ End date _____ Did you stop because of side effects? Yes No

Were other medicines or herbal remedies taken in the last 3 months? Yes No

What were these (as well as the above): _____

4. About your doctor or the person's doctor (optional)

We can send a copy of your Yellow Card report to your doctor if you are reporting about yourself or if the person is your next of kin. Would you like a copy of this report to be sent to your doctor or the person's doctor?

Yes No If yes, give the doctor's name and address

Doctor's name _____

If you want us to send a copy of this report to any other healthcare professional, attach a separate sheet with their contact details.

Address _____

If we need more medical information (such as test results), do we have your permission to contact your doctor directly for it?

_____ Postcode _____

Yes No

5. About you - the person making the report

We need contact details - please supply a full postal address, even if you prefer not to give a phone number or email address.

* Title _____ First name or initials _____ Family name _____

* Address _____

* _____ Postcode _____

Telephone number _____ Email address _____

Please sign and date this form

I agree that the Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA) can contact me to discuss the suspected side effect, and to ask for more information that might help understanding of the case and that all information I provide will be handled in line with the Yellow Card privacy policy.

Sometimes MHRA may want to use your Yellow Card information to encourage others to report, to opt in tick the box

* Signed _____ Date _____

See our animation and share it on social media to raise awareness about the Yellow Card Scheme: www.youtube.com/watch?v=3et5LdYLc8M

Please return this form in the envelope provided to: FREEPOST YELLOW CARD. (No other address details are required)

© Crown Copyright 2018

**Diolch am eich
cyfraniad i'r Cynllun
Cerdyn Melyn**

 **Cerdyn Melyn**
Helpu i wneud meddyginiaethau yn ddiogelach



FREEPOST YELLOW CARD

Gallwch adrodd am sgîl-efeithiau a amheuir:

- ◆ ar-lein ar www.mhra.gov.uk/yellowcard
- ◆ gan ddefnyddio'r ffurflen yn y daflen hon
- ◆ drwy ffonio'r llinell adrodd am ddim ar **0800 731 6789 (Llun – Gwener 10yb – 2yh)**
- ◆ gan ddefnyddio'r **ap** am ddim – chwiliwch am Yellow Card